Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Sut rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd

**Gorffennaf 2025**

# Sut rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth





Rydyn ni yn defnyddio'ch gwybodaeth drwy ddilyn cyfraith o'r enw **Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)**.



Fe fydd ein staff yn gallu gweld eich atebion.



Weithiau fe fyddwn ni yn gofyn i sefydliadau eraill ein helpu i ddeall atebion pobl. Efallai y byddan nhw'n gweld eich gwybodaeth hefyd.




Rydyn ni fel arfer yn cyhoeddi adroddiad sy'n dangos y mathau o bethau mae pobl wedi eu dweud.




Weithiau mae hyn yn meddwl bod manylion personol pobl yn cael eu cynnwys. Dywedwch wrthyn ni os nad ydych chi eisiau i'ch gwybodaeth bersonol gael ei chynnwys.




Os ydych chi yn ein hadroddiad, mae'r wybodaeth yn gallu bod ar gael am amser hir.




Ond dim ond am 3 blynedd mae gwybodaeth sydd ddim yn cael ei chyhoeddi yn cael ei chadw.




Mae'r gyfraith yn rhoi'r hawl i chi:

- gwybod pa wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi a sut rydych chi'n gallu ei gweld
- gwneud i ni newid unrhyw gamgymeriadau yn yr wybodaeth amdanoch chi
- gofyn i ni beidio â defnyddio'r wybodaeth mewn rhai achosion
- gofyn i ni ddileu'r wybodaeth sydd gennym amdanoch chi mewn rhai achosion
- symud yr wybodaeth amdanoch chi i rywle arall mewn rhai achosion
- cwyno wrth **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**

Os ydych chi eisiau gwybod mwy am sut mae eich gwybodaeth yn cael ei chadw a'i defnyddio, cysylltwch â ni yn:



**Swyddog Diogelu Data**
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ



**E-bost:** Swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Information Commissioner's Office

Rydych chi hefyd yn gallu cysylltu â **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Ffôn:** 01625 545745 neu 0303 123 1113

**Gwefan:** https://ico.org.uk